

Sul Cymorth Cristnogol

Nid am fod caru'n rhwydd mewn unrhyw oes,
 Ond am fod caru'n rhaid yng ngolau'r Groes,
 Heb grybwyll ffin, nac un gwahanfur chwaith,
 Na hil, na lliw ei groen, na llwyth nac iaith –
 Câr dy gymydog fel tydi dy hun,
 Can's Duw a'i creodd yntau ar ei lun.

Maurice Loader

EMYNAU

Mae symlrwydd yr emyn hwn yn drawiadol a'i neges mor bellgyrhaeddol:

Rho imi nerth i wneud fy rhan
 i gario baich fy mrawd,
 i weini'n dirion ar y gwan
 a chynorthwyo'r tlawd.

E. A. Dingley *cyf.* Nantlais (*Caneuon Ffydd*: 805)

Adlais o eiriau Paul a geir yn yr emyn hwn sef ein bod ni oll yn un yng Nghrist:

Nid oes yng Nghrist na dwyrain, de,
 gorllewin, gogledd chwaith;
 cymdeithas gref o gariad sydd
 yn un drwy'r ddaear faith.

John Oxenham *cyf.* William Morris (*Caneuon Ffydd*: 807)

Gwyllo rhaglen deledu fu'n symbyliad i Tudor Davies gyfansoddi'r emyn hwn yn benodol ar gyfer Wythnos Cymorth Cristnogol:

Cofia'r newynog, nefol Dad,
 filiynau llesg a thrist eu stad

sy'n llusgo byw yng nghysgod bedd,
ac angau'n rhythu yn eu gwedd.

Tudor Davies (*Caneuon Ffydd*: 816)

**Anghofiwn ein bywyd bras a chofiwn am ein dyletswydd, fel
Cristnogion, tuag at y rhai sydd heb ddim:**

Arglwydd, maddau in mor dlodaidd
fu ein diolch am bob rhodd
ddaeth o'th ddwylo hael i'n cynnal
fel dy bobol wrth dy fodd:
yn dy fyd rhown ynghyd
ddiolch drwy ein gwaith i gyd.

Siôn Aled (*Caneuon Ffydd*: 828)

**Thema'r emyn hwn drwyddo draw yw cofio a charu cymydog sydd
mewn angen:**

A glywaist ti waedd yr anghenus
o'i dlodi yn anterth ei drin?
Mae'n ymbil o galon ddolurus
am nerth a chynhaliaeth i'r blin:
ymateb i'w gri yn drugarog,
rho brawf fod tosturi yn fyw,
mewn angen mae eisiau cymydog
sy'n tystio bod gras wrth y llyw.

D. Hughes Jones (*Caneuon Ffydd*: 843)

**Agorwn ein llygaid, ein meddyliau a'n calonnau i weld yr angen, i
ddirnad y sefyllfa ac i ymateb yn gyson-hael:**

Agor di ein llygaid, Arglwydd,
i weld angen mawr y byd,
gweld y gofyn sy'n ein hymyl,
gweld dioddef draw o hyd:
maddau inni bob dallineb

sydd yn rhwystro grym dy ras,
a'r anghofrwydd sy'n ein llethu
wrth fwynhau ein bywyd bras.

W. Rhys Nicholas (*Caneuon Ffydd*: 841)

GWEDDIAU

Maddau i ni ein methiant a'n diffyg cydymdeimlad:

Addefwn fod ein dwylo'n llawn gwaed; rydym yn byw ar gorn yr anghenus, yn masnachu ar draul y tlawd, yn adeiladu byd sy'n anghyfartal ac yn annheg. Maddau i ni am fethu amgyffred maint ein pechod, a'r dioddef a achosodd ein hunanoldeb hyd eithafoedd y byd. Agor ein llygaid i weld canlyniadau dinistriol ein ffordd o fyw a dyro inni benderfyniad i godi ein llais o du y gwan. Rwyd ti yn ein hannog. Amen.

Saunders Davies

Ymfalchïwn ein bod ni yn gallu rhannu dy gariad ag eraill a thrwy hynny gallwn ninnau dderbyn llawenydd:

Gad inni sylwi bod gwir lawenydd i'w ganfod wrth inni gynnal ein gilydd yn dy gariad di, oherwydd mai gwasanaethu ein gilydd sy'n ein galluogi i'th wasanaethu di, 'Gad inni weld dy wyneb di ymhob cardotyn gwael.' Amen.

Gwyn Thomas

Codwn ein llais fel Cristnogion i wrthwynebu'r ffordd mae'n brodyr a'n chwiorydd yn cael eu cam-drin:

Yn anad dim, dwysbiga ein cydwybod â'r gwirionedd fod dyn yn rhy fawr i gardod. Nid cardod ond cyfiawnder yw dy ewyllys di i bob cenedl ac unigolyn. Dyro inni'r dewrder i annog arweinwyr ein gwlad a holl wledydd y byd i roi lle i'th economeg gyfiawn di.

Rwyd ti'n gwrthwynebu trachwant y trahaus ac yn bwriadu i adnoddau dy fyd gael eu rhannu'n deg ymhlith holl bobloedd dy fyd.

Rho weledigaeth newydd i arweinwyr ein byd o’th fwriad daionus di. O ufuddhau, caiff pawb fwyta o ddaioni’r tir; o wrthod a gwrthryfela yn erbyn dy ewyllys, fe’n difrodir gan drais anochel ein hunanoldeb ni. Amen.

Saunders Davies

Diffwrwyth a difwyd yw’r Gair pan fo pobl yn dal mewn caethiwed a gorthrwm:

O! Dduw, y mae dy Air di yn ddiffwrwyth
 pan yw’r treisgar heb ei ddarostwng,
 a’r darostyngedig yn dal i gael ei sathru dan draed,
 pan ddigonir y cyfoethog â phethau da
 a gadael y tlawd heb ddim.
 Cywira dy Air, O! Dduw, gan ddechrau gyda ni;
 tynera ein calonnau, agor ein clustiau,
 er mwyn inni glywed llais y tlodion
 a bod â rhan yn eu brwydr;
 ac anfon ni ar ein taith
 gyda newyn a hiraeth yn ein calon
 am i’th addewidion gael eu gwireddu yn Iesu Grist. Amen.

Maurice Loader

Rydym yn rhy barod o lawer i weiddi am ein hawliau; cofiwn hefyd am ein cyfrifoldebau:

Dad trugarog, cofiwn mewn tristwch am y rhai sy’n dioddef newyn a thlodi, ac am y plant sy’n gorfod ffarwelio â llwyfan ein byd cyn dechrau cerdded arno. Arglwydd, maddau’r anghyfiawnder sydd ar ein daear. Cofiwn, mewn cywilydd, fod ein hunanoldeb a’n dihidrwydd ni yn cyfrannu at yr anghyfiawnder hwnnw. Mor fynych y buom yn gweiddi am ein hawliau a’n cysur a’n ffyniant, heb sylweddoli bod ein ffyniant ni wedi ei blethu â ffyniant ein brodyr a’n chwiorydd drwy’r byd. Boed yr wythnos hon, felly, yn gyfle, yn enw Iesu Grist, i ddatod llinynnau trugaredd ein calon. Amen.

Llyfr Gwasanaeth yr Annibynwyr Cymraeg

Trwy helpu'r rhai sydd mewn angen rydym yn dy helpu di:

Dduw cariadlon,
 rwyt yn ein galw i'th wasanaethu mewn byd o angen.
 Wrth inni fwydo'r newynog
 rydym yn offrymu bara i Grist yn yr anialwch;
 pan fyddwn yn helpu i suddo pydew ar gyfer pentref sychedig
 rydym yn offrymu cwpaned o ddŵr i Grist ar y groes.
 Cynorthwya ni i weld ein bod ym mhob gofal a roddwn
 yn byw'r Efengyl yn enw Iesu ein Gwardedwr.
 Diolchwn iti am ein partneriaeth yn yr Efengyl
 â Christionogion mewn sawl gwlad.
 Bydded inni galonogi'n gilydd
 wrth inni roi a derbyn yn enw Crist.
 Pan glywir cri'r weddw a'r amddifad yn ein tir,
 gwna ni'n barod i ymateb gyda'n gilydd
 â thrugaredd a chyda ffydd. Amen.

John Johansen-Berg

ADNODAU**Mae pob unigolyn sydd mewn angen yn cael sylw Iesu:**

A bydd y Brenin yn eu hateb, 'Yn wir, rwy'n dweud wrthyich, yn gymaint ag ichwi ei wneud i un o'r lleiaf o'r rhain, fy nghymrodyr, i mi y gwnaethoch.'

Mathew 25: 40

Yr ydym oll yn blant i Dduw, i ba hil neu genedl bynnag y perthynwn:

Nid oes yma ragor rhwng Groegiaid ac Iddewon, enwaediad a dienwaediad, barbariad, Scythiad, caeth, rhydd; ond Crist yw pob peth, a Christ sydd ym mhob peth.

Colosiaid 3: 11

Daeth Iesu i'n byd ar ffurf gwas er mwyn uniaethu â'r distadl a'r gorthrymedig:

Er ei fod ef ar ffurf Duw, ni chyfrifodd fod cydraddoldeb â Duw yn beth i'w gipio, ond fe'i gwacaodd ei hun, gan gymryd ffurf caethwas a dyfod ar wedd ddynol.

Philipiad 2: 6–7

Mae Crist yn ein galw ninnau i gyd-ddioddef yn artaith y byd:

Canys i hyn y'ch galwyd, oherwydd dioddefodd Crist yntau er eich mwyn chwi, gan adael ichwi esiampl, ichwi ganlyn yn ôl ei draed ef.

1 Pedr 2: 21

Mae awdur y Llythyr at yr Hebreaid yn ein hatgoffa fod Iesu, mab Duw, yn cyd-ddioddef â ni yn ein gwendidau:

Canys nid archoffeiriad heb allu cyd-ddioddef â'n gwendidau sydd gennym, ond un sydd wedi ei demtio ym mhob peth, yn yr un modd â ni, ac eto heb bechod.

Hebreaid 4: 15

Wrth i ni wasanaethu'n cyd-ddynion rydym hefyd yn gwasanaethu Duw:

Yn ddiorffwys eich ymroddiad, yn frwd eich ysbryd, gwasanaethwch yr Arglwydd.

Rhufeiniaid 12: 11

DYWEDIADAU A THRADDODIADAU

Mae gwreiddiau Cymorth Cristnogol yn mynd yn ôl i'r flwyddyn 1944 pan benderfynodd eglwysi Prydain sefydlu corff i helpu anffodusion y rhyfel wrth yr enw Christian Reconstruction in Europe. Pan sefydlwyd Cyngor Eglwysi'r Byd ym 1948 penderfynwyd y dylid ehangu gorwelion y corff hwn a chynnwys y byd i gyd a'r flwyddyn ddilynol newidiwyd

yr enw a'r nod i Department of Inter-Church Aid Refugee Service. Erbyn 1957 penderfynwyd ar ledaenu gorfelion a chynnwys pawb i gynorthwyo ac ym mis Mai y flwyddyn honno cafwyd ymgyrch o ddrws i ddrws ac enw'r ymgyrch oedd 'Wythnos Cymorth Cristnogol'.

Mae Cymorth Cristnogol yn pwysleisio fod yn rhaid i'r tlawd sefyll ar ei draed ei hun a bod yn hunangynhaliol.

Nid arian yn nwylo'r tlodion yw'r ateb ond yn hytrach meithrin sgiliau a chynorthwyo i godi'r truan ar ei draed. Bydd arian a gasglwn ni yn mynd ymhellach a bydd y tlawd yn cadw ei hunan-barch.

Slogan Cymorth Cristnogol yw 'Credwn mewn bywyd cyn marw' ac mae'r asiantaeth yn gweithio gyda phobl mewn 50 o wahanol wledydd.

Ym 2013 casglwyd £12.6 miliwn yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol. Felly, i'r rhai fu'n mynd o ddrws i ddrws i gasglu'r amlenni coch doedd yr ymdrech ddim yn ofer!